Gwybodaeth yn ymwneud â bws y Cynulliad
08/12/2010

**Cais am Wybodaeth**

Cyfeiriaf at eich cais a dderbyniwyd ar 8 Tachwedd lle'r oeddech yn gofyn,

*Hoffwn ofyn am ddatgeliad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ynglŷn â'r sioe deithiol 'Pleidleisiwch 2011' sy'n teithio o gwmpas Cymru ar hyn o bryd. A fyddech cystal â dweud wrthyf:*
*·Pa drefi y mae'r bws allgymorth wedi ymweld â hwy yn ystod y cyfnod o 4 Medi 2009 i 6 Tachwedd 2010.*
*·Pa gostau cynnal a chadw a chostau teithio mae'r bws allgymorth wedi eu hachosi yn ystod y cyfnod o 4 Medi 2009 i 6 Tachwedd 2010.*
*·Faint o staff sydd wedi eu cyflogi a beth yw cyfanswm cost y cyflogau staff sydd wedi eu hachosi gan y bws allgymorth yn ystod y cyfnod o 4 Medi 2009 i 6 Tachwedd 2010.*

Mae dwy restr wedi eu cysylltu. Mae'r naill yn rhestr o drefi y mae Bws Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymweld â hwy, yn ystod y cyfnod yr oeddech yn holi amdano, fel rhan o'i nod o gynyddu ac ehangu ymgysylltiad â democratiaeth yng Nghymru.

Mae'r ail restr yn gosod allan y costau cynnal a chadw, y costau teithio a'r costau staff mewn cysylltiad â rhedeg y bws. Lle mae'n bosibl nodi ar wahân y costau sy'n gysylltiedig â Pleidleisiwch 2011, mae hynny wedi ei adlewyrchu yn y tabl.

Mae rhagor o wybodaeth am ddiben a gweithgareddau'r Bws Allgymorth i'w gweld ar wefan y Cynulliad drwy'r cyswllt canlynol
http://www.assemblywales.org/gethome/get-assembly-area/get_involved-outreach_bus.htm

Mae eich cais wedi ei ystyried yn unol â'r egwyddorion yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod i'w weld ar ein gwefan yn http://www.assemblywales.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ymateb hwn, cofiwch gysylltu â mi.

Os credwch nad wyf wedi defnyddio'r Cod yn gywir neu nad wyf wedi dilyn y deddfau perthnasol, gallwch gyflwyno cŵyn swyddogol i Brif Weithredwr a

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion y Cynulliad mewn cysylltiad â chwynion wedi eu gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion, sydd i'w weld ar y Rhyngrwyd yn http://www.assemblywales.org/conhome/con-complaint.htm Cofiwch roi gwybod i mi os hoffech gael copi wedi ei argraffu.

Os na fyddwch yn fodlon â chanlyniad y cyfweliad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Cydlynydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru